**CYFARFOD y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 15fed Mehefin 2016 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Miss S. L. Roberts (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Miss E. M. Chard, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, A. J. Rutherford, Miss R. Siddall, W. N. Tasker, T. Thomas, y Parch. S. Walker a Miss C. L. Williams.

Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 19. DECHRAU'R CYFARFOD

Dechreuodd Caplan y Maer, y Tad Charles Ramsey, y cyfarfod trwy arwain pawb mewn gweddi.

## 20. YYMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), Ms J. Hughes (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), P. Prendergast (ymrwymiad gwaith), S. H. Ratcliffe (ymrwymiad teuluol), D. Simmons (ymrwymiad arall) a Chlerc y Dref, Mr G. J. Nickels (ar wyliau).

## 21. COFNODION

Cyfarfod Blynyddol - 18fed Mai 2016 - Rhifau Cofnod 1 - 18

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 1af Mehefin 2016 - Rhifau Cofnod 1 - 3

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 1af Mehefin 2016 - Rhifau Cofnod 1 - 21

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

## 22. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau a fynychwyd ganddi hi a'r Dirprwy Faer y mis diwethaf ac yn benodol at gynhyrchiad '9 to 5' Cwmni Theatr Gerddorol y Rhyl a'r Ardal yr oedd wedi ei fwynhau'n fawr iawn, gwasanaeth coffa'r Is-ringyll Paul Farrelly yn Eglwys Sant Tomos a digwyddiad cyntaf y Cyngor Tref, y Penwythnos Brenhinol.

Nododd y Maer a'r Aelodau lwyddiant y Penwythnos Brenhinol gan longyfarch Gunsmoke Communications.

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at ddigwyddiad bowlio Deaf Blind Cymru, a ddilynwyd gan Ddathliad Pen-blwydd Vision Support yn 140 oed a dywedodd ei fod wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr.

**23. RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS Y RHYL, MR PETER ROBINSON**

Gan gyfeirio at gofnod rhif 5 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 18fed Mai 2016, dan y pwerau a roddwyd iddo gan statud, derbyn Mr Peter Robinson fel Rhyddfreiniwr Anrhydeddus y Rhyl (y ragoriaeth mwyaf anrhydeddus y mae'n fraint i'r Cyngor Tref ei rhoi), i werthfawrogi'r gwasanaeth cyhoeddus rhagorol y mae wedi ei roi fel dinesydd y Rhyl, cyflwynodd y Maer Arwyddlun y Dref i Mr Robinson, ynghyd â thystysgrif wedi ei fframio.

Dywedodd Mr Robinson ei fod yn hynod falch o dderbyn y wobr ac y byddai'n ei thrysori.

Cyfeiriodd Mr Robinson at yr Orsaf Bad Achub fel rhan bwysig o'r Rhyl, gan fod bad achub wedi bod yno ers 1852 a'u bod nawr yn ymladd yn galed iawn i'w chadw.

Ymunodd gwraig Mr Robinson, Mrs Jan Robinson a'i fab Mr Callum Robinson â Mr Robinson i dderbyn y wobr a diweddodd trwy ddiolch i'r Cyngor Tref.

**24. EITEM ER GWYBODAETH: CHWYN AR Y PROMENAD**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James at y chwyn hyll a oedd ar y Promenâd rhwng Theatr y Pafiliwn a Splash Point, a bod angen ateb parhaol.

Dywedodd Aelod bod Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau bod yr ardal i'w chlirio a bod pridd i'w osod yno yr wythnos nesaf.

Gofynnodd Aelod arall am gael gwneud yr un peth ar waelod John Street, lle'r oedd palmant braf newydd a chynhwysydd blodau mawr trionglog wedi eu gosod, a chan nad oedd y cynllun wedi ei gwblhau, roedd nawr yn llenwi â chwyn.

***PENDERFYNWYD*** *bod Dirprwy Glerc y Dref yn ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych i ofyn eu bod yn gorfodi ymrwymiadau'r contractwr cyfrifol i gadw'r Promenâd yn daclus a gorffen y gwaith ar John Street a sicrhau bod gwaith cynnal a chadw rheolaidd wedi hynny.*

**25. EITEM ER GWYBODAETH: Y PENWYTHNOS BRENHINOL**

Cyfeiriodd y Maer at y sylw a gafodd y Cyngor Tref yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol yn y cyfnod yn arwain at ei ddigwyddiad 'Penwythnos Brehinol' cyntaf ac wedi hynny, a'r stori a oedd bron yn llenwi'r dudalen flaen ym mhapur newydd y Journal yr wythnos honno, a oedd wedi ei harddangos ar yr hysbysfwrdd.

Roedd yr Aelodau'n hynod falch gyda phroffil uwch y Cyngor Tref ac ailadrodd eu diolch i Gunsmoke Communications.

**26. HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

27. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**28. SEFYDLIAD**

Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Staffio at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan wneud nifer o argymhellion i leihau'r pwysau ar staff dros yr ychydig fisoedd nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr argymhellion a'u cymeradwyo.*

29. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:………….……………..

Dyddiad: ……………….…………..